Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd
National Eisteddfod Cardiff
3–11 Awst / August 2018

Carnifal y Môr

GWAHODDIAD I GREU CARNIFAL

Dewch i ddathlu pwy ydych chi a'ch Cymru chi

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Gaerdydd yr Awst hwn a ryden ni'n agor gyda **CHARNIFAL**. Ymunwch â ni!

Sut hoffech chi ddathlu mewn carnifal yr hyn rydych chi'n ei garu ynglŷn â Chymru? Dewch at eich gilydd - ffrindiau, cydweithwyr neu gymdogion ac ymunwch yn y dathliad mawr hwn ym Mae Caerdydd.

Delwedd: Megan Broadmeadow

Mae'r Eisteddfod yn uno â Charnifal Butetown er mwyn creu gorymdaith fywiog drwy Faes yr Eisteddfod ym Mae Caerdydd ac mae lot o le er mwyn i chi ymuno â'r sbri. Dewch â'ch stryd, teulu, cymdogion, band, côr, grŵp, cydweithwyr a ffrindiau - gwisgwch lan, gwnewch rywbeth i'w gario, dathlwch a dawnsiwch gyda ni o gwmpas y strydoedd. Byddwn yn diweddu ar y glannau, o flaen Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Senedd ar gyfer egstrafagansa anhygoel gyda ffilm wedi ei thaflunio ar sgriniau dŵr enfawr a chyfraniad cerddorol gan y canwr a'r cyfansoddwr Gruff Rhys.

Os ydych chi'n ymuno â Charnifal y Môr ar 4 Awst mae croeso i chi orymdeithio unwaith eto ddiwedd y mis yng Ngharnifal Butetown, Caerdydd.

Mae'n cychwyn yn hwyr nos Sadwrn, 4 Awst, oddeutu 22:30. Carnifal ar droed fydd hwn - felly dim fflôts na lorïau. Ond byddwn ni wrth ein bodd cael clywed 'da chi. Beth allwch chi ddod gyda chi? Beth fyddwch chi'n ei wisgo?

Rhowch wybod os ydych chi'n gallu dod … a dywedwch wrthom ni beth ydych yn ystyried dod gyda chi i'r parti! Unrhyw gwestiwn? Jyst holwch…

Carnifal y Môr

Ebostiwch ni ar carnifal@eisteddfod.org.uk Ffôn: 0845 4090 300